Pecyn Dogfennau

Cyngor **Sir Gâr**
**Carmarthenshire**
County Council

sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

**DYDD MERCHER, 10 EBRILL 2024**

**AT: HOLL AELODAU Y PWYLLGOR TRWYDDEDU**

YR WYF DRWY HYN YN EICH GALW I FYNYCHU CYFARFOD O'R **PWYLLGOR TRWYDDEDU** A GYNHELIR YN **SIAMBR, NEUADD Y SIR, CAERFYRDDIN. SA31 1JP AC O BELL AM 10.00 YB DYDD IAU, 18FED EBRILL, 2024** ER MWYN CYFLAWNI'R MATERION A AMLINELLIR AR YR AGENDA SYDD YNGHLWM

*Wendy Walters*

**PRIF WEITHREDWR**

| | |
|---|---|
| **Swyddog Democrataidd:** | **Kevin Thomas** |
| **Ffôn (llinell uniongyrchol):** | **01267 224027** |
| **E-Bost:** | **kjthomas@sirgar.gov.uk** |
| **Cyfarfod aml-leoliad yw hwn. Gall aelodau'r pwyllgor fynychu'n bersonol yn y lleoliad a nodir uchod neu o bell drwy'r ddolen Zoom a ddarperir ar wahân.** | |
| **Gellir gwylio'r cyfarfod ar wefan y cyngor drwy'r ddolen canlynol:-** https://carmarthenshire.public-i.tv/core/portal/home | |

Wendy Walters Prif Weithredwr, *Chief Executive,*
Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP
*County Hall, Carmarthen. SA31 1JP*

# PWYLLGOR TRWYDDEDU

**GRŴP PLAID CYMRU- 8 Aelod**

Cyng. Mansel Charles (Cadeirydd)

Cyng. Alex Evans

Cyng. Tyssul Evans

Cyng. Ken Howell

Cyng. Hefin Jones

Cyng. Jean Lewis

Cyng. Dorian Phillips (Is-Gadeirydd)

Cyng. Elwyn Williams

**GRŴP LLAFUR - 4 Aelod**

Cyng. Peter Cooper

Cyng. Suzy Curry

Cyng. Dot Jones

Cyng. Kevin Madge

**GRŴP ANNIBYNNOL - 2 Aelod**

Cyng. Louvain Roberts

Lle Gwag

**HEB GYSYLLTIAD 0 Aelod**

# A G E N D A

| | | |
|---|---|---|
| 1. | **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.** | |
| 2. | **DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.** | |
| 3. | **LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TRWYDDEDU A GYNHALIWYD AR 5 MAWRTH, 2024.** | 5 - 8 |
| 4. | **GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD**<br>NI DDYLID CYHOEDDI'R ADRODDIADAU SY'N YMWNEUD Â'R MATERION CANLYNOL GAN EU BOD YN CYNNWYS GWYBODAETH EITHRIEDIG FEL Y'I DIFFINIWYD YM MHARAGRAFF 12 O RAN 4 O ATODLEN 12A I DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972 FEL Y'I DIWYGIWYD GAN ORCHYMYN LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD AT WYBODAETH) (AMRYWIO) (CYMRU) 2007 GAN EI FOD YN CYNNWYS GWYBODAETH AM UNIGOLYN PENODOL.<br><br>OS BYDD Y PWYLLGOR, AR ÔL CYNNAL PRAWF LLES Y CYHOEDD, YN PENDERFYNU YN UNOL Â'R DDEDDF, I YSTYRIED Y MATERION HYN YN BREIFAT, GORCHMYNNIR I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD YN YSTOD TRAFODAETH O'R FATH. | |
| 5. | **MR LEE JENKINS - CAIS AM DRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT** | 9 - 12 |
| 6. | **MR SIMON MATTHEW HARDY - TRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT** | 13 - 16 |
| 7. | **MR GEOFFREY KARIN DAVIES -TRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT** | 17 - 20 |

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

# PWYLLGOR TRWYDDEDU

## DYDD MAWRTH, 5 MAWRTH 2024

**PRESENNOL** Cynghorydd J.M. Charles (Cadeirydd)

**Cynghorwyr (Yn y Siambr):**

| | | | |
|---|---|---|---|
| P. Cooper | J.K. Howell | H. Jones | B.D.J. Phillips |

**Cynghorwyr (Yn rhithwir):**

| | | | |
|---|---|---|---|
| S.A. Curry | A. Evans | W.T. Evans | D. Jones |
| M.J.A. Lewis | K. Madge | | |

**Hefyd yn bresennol (Yn rhithwir):**
D. Paffett - Cynrychiolydd Awdurdod Heddlu Dyfed-Powys

**Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):**
R. Edgecombe, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
J. Power, Uwch Swyddog Trwyddedu
L. Williams, Swyddog Trwyddedu
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd
M. Runeckles, Swyddog Cefnogi Aeolodau
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP ac o bell - 10.00 - 11.25 yb**

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr L. Roberts a D. E. Williams.

**2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.**

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant personol.

**3. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TRWYDDEDU A GYNHALIWYD AR 23AIN IONAWR, 2024.**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 23 Ionawr 2024, gan eu bod yn gywir.**

**4. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD**

**PENDERFYNWYD, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i newidiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitemau**

**canlynol yn cael eu hystyried, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

## 5. MR CHARLES WYNNE JONES - CAIS AM DRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT

Ystyried cais gan Mr Charles Wynne Jones o 90 Waun Burgess, Caerfyrddin am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat.

Rhoddodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu wybod i aelodau'r Pwyllgor am y materion a oedd wedi codi mewn perthynas â'i drwydded.

Bu'r Pwyllgor yn cyfweld â Mr Jones ynghylch y materion a godwyd gan yr Uwch-swyddog Trwyddedu.

Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod cais Mr Jones yn cael ei ganiatáu a'i fod yn cael rhybudd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD caniatáu cais Mr Charles Wynne Jones am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat a'i fod yn cael rhybudd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.**

## 6. MISS SAMANTHA BERYL GRIFFITHS - TRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod Miss Samantha Beryl Griffiths o 105 Amanwy, Llanelli yn meddu ar Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat gyda'r awdurdod. Rhoddodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu wybod i'r Pwyllgor am y materion a oedd wedi codi mewn perthynas â thrwydded Miss Griffiths.

Bu'r Pwyllgor yn cyfweld â Miss Griffiths ynghylch y materion a godwyd gan yr Uwch-swyddog Trwyddedu. Cafwyd sylwadau ar lafar hefyd gan gynrychiolydd Heddlu Dyfed-Powys.

Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod trwydded Miss Griffiths yn cael ei dirymu.

Ar hynny

**PENDERFYNODD y Pwyllgor YN UNFRYDOL gynnal sesiwn preifat er mwyn cael cyngor cyfreithiol yn unol â Pharagraff 16 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.**

Ar ôl y toriad, ailymgynullodd y Pwyllgor i roi ei benderfyniad.

**PENDERFYNWYD atal Trwydded Yrru Ddeuol Miss Samantha Beryl Griffiths ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat tan 30 Mai 2024 er mwyn galluogi Miss**

**Griffiths i ddarparu tystiolaeth feddygol ynghylch ei ffitrwydd i feddu ar drwydded.**

Rheswm

Mae'r ffeithiau a amlinellwyd i'r Pwyllgor yn rhoi achos rhesymol dros atal y drwydded ond ni fyddai ei dirymu yn ymateb cymesur.

## 7. MR DANIEL JAMES MORSE - TRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod Mr Daniel James Morse o 9 Stryd Robinson Uchaf, Llanelli yn meddu ar Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat gyda'r awdurdod. .

Dywedodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu nad oedd Mr Morse yn bresennol ac y dylai'r Pwyllgor ystyried yr achos yn ei absenoldeb.

Rhoddodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu wybod i'r Pwyllgor am y materion a oedd wedi codi mewn perthynas â thrwydded Mr Morse ac argymhellodd fod trwydded Mr Morse yn cael ei dirymu.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ddirymu Trwydded Yrru Ddeuol Mr Daniel James Morse ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat.**

Rheswm

Roedd y ffeithiau a amlinellwyd i'r Pwyllgor yn rhoi achos rhesymol dros ddirymu'r drwydded.

## 8. MR EDWARD WALLACE HERBERT - TRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod Mr Edward Wallace Herbert o 37 Parc y Bryn, Caerfyrddin yn meddu ar Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat gyda'r awdurdod.

Dywedodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu nad oedd Mr Herbert yn bresennol ac y dylai'r Pwyllgor ystyried yr achos yn ei absenoldeb.

Rhoddodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu wybod i'r Pwyllgor am y materion a oedd wedi codi mewn perthynas â thrwydded Mr Herbert.

Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod trwydded Mr Herbert yn cael ei dirymu.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ddirymu Trwydded Yrru Ddeuol Mr Edward Wallace Herbert ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat.**

Rheswm

Roedd y ffeithiau a amlinellwyd i'r Pwyllgor yn rhoi achos rhesymol dros ddirymu'r drwydded.

## 9. MR SIMON MARTIN VAUGHAN - TRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod Mr Simon Martin Vaughan o 9 Carregaman Isaf, Rhydaman yn meddu ar drwydded yrru ddeuol ar gyfer cerbyd hacnai/hurio preifat gyda'r awdurdod.

Dywedodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu nad oedd Mr Vaughan yn bresennol ac y dylai'r Pwyllgor ystyried yr achos yn ei absenoldeb.

Rhoddodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu wybod i'r Pwyllgor am y materion a oedd wedi codi mewn perthynas â thrwydded Mr Vaughan.

Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod trwydded Mr Vaughan yn cael ei dirymu.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ddirymu Trwydded Yrru Ddeuol Mr Simon Martin Vaughan ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat.**

Rheswm

Roedd y ffeithiau a amlinellwyd i'r Pwyllgor yn rhoi achos rhesymol dros ddirymu'r drwydded.

**CHAIR** **DATE**

Eitem Rhif  5

Yn rhinwedd  paragraff(au) 12 o Ran 4 o Atodlen 12A o ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd ga
Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007

Document is Restricted

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Yn rhinwedd paragraff(au) 12 o Ran 4 o Atodlen 12A o ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd ga
Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007

Document is Restricted

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Eitem Rhif 7

Yn rhinwedd paragraff(au) 12 o Ran 4 o Atodlen 12A o ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd ga
Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007

Document is Restricted

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol